


Canlyniadau'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, 2018

22 Awst 2018
SFR 73/2018

Newidiadau i gyhoeddi'r ystadegau yma ar lefel is na Chymru

Yn dilyn [ymgyngoriad](#) ar gyhoeddiadau asesiadau athrawon a data'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol, ni fydd y Datganiad Ystadegol hwn bellach yn cyhoeddi data ar lefel awdurdod.

Y gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn y sgôr gymedrig safonedig yn ôl oedran



Mae'r gwahaniaeth yn y sgôr gymedrig safonedig yn ôl oedran ar gyfer bechgyn a merched yn dangos:



Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn y profion darllen ym mhob un o grwpiau blwyddyn y cwricwlwm cenedlaethol.



Mae bechgyn yn perfformio'n well na merched yn y prawf rhifedd yn y mwyafrif o grwpiau blwyddyn y cwricwlwm cenedlaethol. Yr eithriadau oedd y prawf gweithdrefnol blwyddyn 8 a'r profion rhifedd ym mlynedd 3 a 7.

Am y datganiad hwn

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn rhoi gwybodaeth am ddisgyblion ym Mlynedd 2 i 9 y Cwricwlwm Cenedlaethol ar lefel Cymru. Mae'n darparu dadansoddiad o sgorau safonedig yn ôl oedran yn y profion darllen a rhifedd cenedlaethol yn ôl rhyw.

Mae'r sgôr safonedig yn ôl oedran yn dangos pa mor dda y mae dysgwyr unigol wedi perfformio mewn prawf penodol o'i gymharu â phlant eraill sydd yr un oed mewn blynedd a misoedd yng Nghymru.

Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran 'Nodiadau' ar ddiwedd y datganiad hwn.

Yn y datganiad hwn

Cyflwyniad	2
Profion Darllen	3
Profion Rhifedd	4

Cyflwyniad

Caiff profion cenedlaethol mewn darllen a rhifedd eu sefyll gan ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 2 i 9 bob haf.

Ceir dau brawf **rhifedd**; mae'r ddau ar gael yn Gymraeg neu Saesneg (yr un yw'r cwestiynau). Mae'r prawf rhifedd gweithdrefnol yn cynnwys cwestiynau sy'n profi sgiliau fel y gallu i gyfrifo cyfaint, tymheredd ac arwynebedd. Mae'r prawf rhifedd rhesymu yn gofyn i ddisgyblion gymhwysu eu sgiliau ar gyfer datrys problemau pob dydd.

Ceir profion **darllen** yn Gymraeg a Saesneg. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg mae pob disgybl ym Mlynnyddoedd 4 i 9 yn sefyll profion darllen Cymraeg a Saesneg ond nid oes disgwyl i ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 2 a 3 sefyll y prawf Saesneg. Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg mae pob disgybl ym Mlynnyddoedd 2 i 9 yn sefyll y profion darllen Saesneg yn unig. Mae'r profion darllen yn cynnwys cyfres o gwestiynau byr ar ddau neu fwy o ddarnau. Mae rhai o'r cwestiynau'n profi pa mor dda y mae'r disgybl wedi deall y darn tra bo eraill yn ceisio profi a yw'r disgybl yn gallu ffurfio barn ynghylch yr hyn y mae'n ei ddarllen.

Mesuriad cynnydd

Mae sgoriau prawf amrwd y disgyblion wedi'u trosi'n sgoriau safonedig yn ôl oedran (sy'n dangos sut y mae dysgwyr unigol yn perfformio fesul prawf o'i gymharu â dysgwyr eraill yr un oedran, mewn blynnyddoedd a misoedd). Mae sgorau safonedig yn ôl oedran yn darparu mesur o berfformiad cymharol yn unig. Mae'r sgôr safonedig yn ôl oedran ar gyfartaledd wedi'i osod oddeutu 100 gyda'r ystod rhwng 85 a 115 ar gyfartaledd. Fedd fydd gan o gwmpas 68 y cant o ddysgwyr yn cymryd y prawf sgôr yn yr ystod hon. Mae sgôr o dros 115 yn nodi canlyniadau prawf sydd yn uwch na'r rhai ar gyfer rhan fwyaf y plant o'r un oedran. Mae sgôr is na 85 yn nodi canlyniadau prawf sydd yn is na'r rhai ar gyfer rhan fwyaf y plant o'r un oedran.

Mae'r datganiad yma yn cyflwyno dadansoddiad o sgorau safonedig disgyblion yn ôl oedran a rhyw ar gyfer 2018. Mae'r canlyniadau ar gyfer pob grŵp blwyddyn a phrofi wedi'u safoni yn annibynnol bob blwyddyn. Felly, ni all y data yn y datganiad hwn gael ei ddefnyddio i gymharu perfformiad cymharol o ddisgyblion rhwng y gwahanol brofion.

Nodwch gan fod y data wedi'u safoni yn annibynnol bob blwyddyn, ni ellir cymharu'r canlyniadau dros amser.

Taflenni Canlyniadau Disgyblion


Roedd Taflenni Canlyniadau Disgyblion Unigol ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd ar Orffennaf 2ail, sydd yn caniatáu amser, fel yn y blynnyddoedd cynt, i sicrhau fod yr adroddiadau ar gael i rieni cyn diwedd y tymor.

Symud tuag at asesu darllen a rhifedd ar-lein

Fel rhan o'r flwyddyn academaidd nesaf (2018/19), caiff asesiadau ar-lein eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau gyda rhifedd gweithdrefnol yn 2018/19. Dros amser bydd yr asesiadau ar-lein yn cymryd lle'r profion cenedlaethol presennol sydd ar bapur. Bydd yr asesiadau personol newydd yn addasu lefel anhawster y cwestiynau er mwyn rhoi her briodol i bob dysgwr. Ceir gwybodaeth ychwanegol ar [wefan Dysgu Cymru](#).

Profion Darllen Cenedlaethol - sgoriau safonedig yn ôl oedran


Siart 1: Canran y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a enillodd sgoriau safonedig yn ôl oedran o fewn y bandiau a ddangosir yn y Prawf Darllen Cenedlaethol (Saesneg), yn ôl rhyw, 2018 (a)(b)



(a) Nid yw'n cynnwys canlyniadau prawf darllen Saesneg dewisol i ddisgyblion ym mlwyddyn 3 sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf.
 (b) Yn achos disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf, neu a gafodd sgôr o 'llai na 70', rhoddwyd sgôr o 69 iddynt;
 yn achos y rheini â sgôr o 'mwy na 140', rhoddwyd sgôr o 141 iddynt.
 (c) Yn cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

- Enillodd mwy o ferched na bechgyn sgôr safonedig o fwy na 115 dros bob grŵp blwyddyn. Roedd bwlch o 4.5 pwynt canran rhwng merched a bechgyn.
- Enillodd mwy o fechgyn na merched sgôr safonedig o lai nag 85 dros bob grŵp blwyddyn. Roedd bwlch o 6.5 pwynt canran rhwng bechgyn a merched.
- Roedd amrywioldeb yn y sgoriau safonedig yn uwch i fechgyn na merched, ac mae yna wyriad safonol o 16.0 ar y naill law ac 15.4 ar y llall.

Siart 2: Canran y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a enillodd sgoriau safonedig yn ôl oedran o fewn y bandiau a ddangosir yn y Prawf Darllen Cenedlaethol (Cymraeg), yn ôl rhyw, 2018 (a)



(a) Yn achos disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf, neu a gafodd sgôr o 'llai na 70', rhoddwyd sgôr o 69 iddynt; yn achos y rheini â sgôr o 'mwy na 140', rhoddwyd sgôr o 141 iddynt.
 (b) Yn cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.


- Enillodd mwy o ferched na bechgyn sgôr safonedig o fwy na 115 dros bob grŵp blwyddyn. Roedd bwlch o 6.5 pwynt canran rhwng merched a bechgyn.
- Enillodd mwy o fechgyn na merched sgôr safonedig o lai nag 85 dros bob grŵp blwyddyn. Roedd bwlch o 7.5 pwynt canran rhwng bechgyn a merched.
- Mae'r amrywioldeb yn y sgoriau safonedig yn weddol debyg i fechgyn a merched, ac mae yna wyriad safonol o 15.6 ar y naill law a 15.4 ar y llall.

- Roedd y bwlch rhwng y rhywiau ar gyfer canran y disgyblion a wnaeth lwyddo i gael sgôr safonedig uwch na 115 yn fwy yn y prawf darllen Cymraeg nag unrhyw brawf cenedlaethol arall.

Gwelwch dabl 1 o'r daenlen gysylltiedig ar gyfer tablau data mwy manwl os gwelwch yn dda.

Profion Rhifedd Cenedlaethol - Sgoriau safonedig yn ôl oedran


Siart 3: Canran y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a enillodd sgoriau safonedig o fewn y bandiau a ddangosir yn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (gweithdrefnol) yn ôl rhyw, 2018 (a)



(a) Yn achos disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf, neu a gafodd sgôr o 'llai na 70', rhoddwyd sgôr o 69 iddynt; yn achos y rheini â sgôr o 'mwy na 140', rhoddwyd sgôr o 141 iddynt.
 (b) Yn cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

- Enillodd mwy o fechgyn na merched sgôr safonedig o fwy na 115 dros bob grŵp blwyddyn. Roedd bwlch o 4.2 pwynt canran rhwng merched a bechgyn.
- Enillodd mwy o fechgyn na merched sgôr safonedig o lai nag 85 dros bob grŵp blwyddyn. Roedd bwlch o 1.8 pwynt canran rhwng bechgyn a merched.
- Roedd amrywioldeb yn y sgoriau safonedig yn uwch i fechgyn na merched, ac mae yna wyriad safonol o 16.3 ar y naill law ac 14.6 ar y llall.

Siart 4: Canran y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a enillodd sgoriau safonedig o fewn y bandiau a ddangosir yn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) yn ôl rhyw, 2018 (a)



(a) Yn achos disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf, neu a gafodd sgôr o 'llai na 70', rhoddwyd sgôr o 69 iddynt; yn achos y rheini â sgôr o 'mwy na 140', rhoddwyd sgôr o 141 iddynt.
 (b) Yn cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

- Enillodd mwy o fechgyn na merched sgôr safonedig o fwy na 115 dros bob grŵp blwyddyn. Roedd bwlch o 2.9 pwynt canran rhwng merched a bechgyn.
- Enillodd mwy o fechgyn na merched sgôr safonedig o lai nag 85 dros bob grŵp blwyddyn. Roedd bwlch o 2.0 pwynt canran rhwng bechgyn a merched.
- Roedd amrywioldeb yn y sgoriau safonedig yn uwch i fechgyn na merched, ac mae yna wyriad safonol o 16.9 ar y naill law ac 15.5 ar y llall.

Gwelwch dabl 2 o'r daenlen gysylltiedig ar gyfer tablau data mwy manwl os gwelwch yn dda.

Manylion pellach

Mae'r ddogfen hon, ynghyd ac adroddiad ar ansawdd yn cynnwys gwybodaeth ar y cyd-destun polisi, dogfennau cysylltiedig ag y ffynonellau data, diffiniadau, methodoleg a gwybodaeth allweddol am ansawdd ar gael yma:

<http://llyw.cymru/statistics-and-research/national-reading-numeracy-test-results/?lang=cy>

Y diweddariad nesaf

Awst 2019 ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19.

Gan fod yr asesiadau ar-lein yn raddol yn cymryd lle'r profion ar bapur presennol o 2018/19 ymlaen, fe fyddwn yn ystyried sut i gyhoeddi data ar gyfer y blynyddoedd olaf o'r profion ar bapur.

Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch eich sylwadau drwy e-bost i ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r cyfan ar gael o dan [Drwydded Llywodraeth Agored f3.0](#)

